OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 389 (Cy. 78)

2025 No. 389 (W. 78)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025

The Regulated Services (Inspection Ratings) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch graddau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth yn dilyn arolygiad o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Y graddau y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy yw'r rhai a roddir gan Weinidogion Cymru mewn adroddiad arolygu mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal neu wasanaethau cymorth cartref o dan adran 36(2)(d) o'r Ddeddf.

Yn unol â'r pŵer yn adran 37(2)(a) o'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal ar gyfer oedolion a darparwyr gwasanaethau cymorth cartref i arddangos graddau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn modd a bennir ac mewn man a bennir.

Yn unol ag adran 37(2)(c) o'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i ddarparwr gwasanaeth apelio yn erbyn gradd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofynion penodedig sy'n ymwneud ag arddangos graddau a roddir gan Weinidogion Cymru.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision about ratings given by the Welsh Ministers in relation to the quality of care and support provided by a service provider following an inspection under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 ("the Act").

The ratings with which these Regulations are concerned are those given by the Welsh Ministers in an inspection report in relation to care home services or domiciliary support services under section 36(2)(d) of the Act.

In accordance with the power in section 37(2)(a) of the Act, these Regulations impose requirements on providers of care home services for adults and domiciliary support services to display ratings given by the Welsh Ministers in a specified manner and place.

In accordance with section 37(2)(c) of the Act, these Regulations make provision for a service provider to appeal against a rating given by the Welsh Ministers in certain circumstances.

These Regulations make it an offence for a service provider to fail to comply with specified requirements relating to the display of ratings given by the Welsh Ministers.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Part 1 of these Regulations contains definitions of terms used in the Regulations.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y graddau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn adroddiadau arolygu. Mae rheoliad 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gradd pan fyddant yn cynnal arolygiad o wasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref. Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r mannau y mae rhaid arddangos graddau ynddynt a'r modd y mae rhaid i raddau gael eu harddangos. Mae'n cynnwys gofynion i raddau a roddir gael eu dangos ar wefannau, a hefyd i raddau gael eu harddangos ym mhob man y darperir y gwasanaethau ynddo neu ohono. Mae rheoliad 4 yn cynnwys darpariaeth i ddarparwr gwasanaeth apelio yn erbyn graddau pan fo amodau penodol wedi eu bodloni.

Part 2 of these Regulations makes provision about the ratings given by the Welsh Ministers in inspection reports. Regulation 2 imposes a duty on Welsh Ministers to give a rating when they carry out an inspection of a care home service or a domiciliary support service. Regulation 3 prescribes the places and manner in which ratings must be displayed. It includes requirements for ratings given to be shown on websites, and also for ratings to be displayed at each place at or from which the services are provided. Regulation 4 includes provision for a service provider to appeal against ratings where certain conditions are met.

Mae Rhan 3 yn ymdrin â throseddau. Mae rheoliad 5 wedi ei wneud o dan adran 45 o'r Ddeddf ac yn darparu bod methiant gan ddarparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion darpariaethau penodedig yn y Rheoliadau hyn yn drosedd.

Part 3 deals with offences. Regulation 5 is made under section 45 of the Act and provides that a service provider's failure to comply with the requirements of specified provisions in these Regulations is an offence.

Mae Rhan 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 ac yn nodi pa droseddau am dorri gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn sy'n gallu bod yn destun hysbysiad cosb a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 52 o'r Ddeddf.

Part 4 makes amendments to the Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019 and sets out which offences for breaches of requirements imposed by these Regulations can be the subject of a penalty notice issued by the Welsh Ministers under section 52 of the Act.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Department of Health and Social Services, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 389 (Cy. 78)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025

Gwnaed	*26 Mawrth 2025*	*Made*	*26 March 2025*
Yn dod i rym	*31 Mawrth 2025*	*Coming into force*	*31 March 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 37(1) a (2)(a) ac (c), 45, 52(1)(**1**) a (6) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**) ("y Ddeddf") ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adran 37(3) o'r Ddeddf.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(h) a (j) o'r Ddeddf ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**3**).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2025.

(**1**) Mae adran 52(1) yn cyfeirio at droseddau sy'n "rhagnodedig". Mae adran 189 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) yn diffinio "a ragnodir" a "rhagnodedig" i olygu "wedi ei ragnodi drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru".

(**2**) 2016 dccc 2.

(**3**) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf at "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

2025 No. 389 (W. 78)

SOCIAL CARE, WALES

The Regulated Services (Inspection Ratings) (Wales) Regulations 2025

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 37(1) and (2)(a) and (c), 45, 52(1)(**1**) and (6) and 187(1) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**2**) ("the Act") and having consulted such persons as they think appropriate, as required by section 37(3) of the Act.

A draft of these Regulations was laid before Senedd Cymru under section 187(2)(h) and (j) of the Act and has been approved by a resolution of Senedd Cymru(**3**).

PART 1

General

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Regulated Services (Inspection Ratings) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 31 March 2025.

(**1**) Section 52(1) refers to offences which are "prescribed". Section 189 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) defines "prescribed" as meaning "prescribed by regulations made by the Welsh Ministers".

(**2**) 2016 anaw 2.

(**3**) References in the Act to "the National Assembly for Wales" now have effect as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad arolygu" ("*inspection report*") yw adroddiad a lunnir gan Weinidogion Cymru ar ôl arolygiad yn unol ag adran 36 o'r Ddeddf;

ystyr "darparwr gwasanaeth perthnasol" ("*relevant service provider*") yw person sydd wedi ei gofrestru gan Weinidogion Cymru fel darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "gradd arolygu" ("*inspection rating*") yw'r radd mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei rhoi yn unol â rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn;

mae i "gwasanaeth cartref gofal" ("*care home service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

mae i "gwasanaeth cymorth cartref" ("*domiciliary support service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol" ("*relevant regulated service*") yw—

(a) gwasanaeth cartref gofal;

(b) gwasanaeth cymorth cartref.

(3) In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016;

"care home service" ("*gwasanaeth cartref gofal*") has the meaning given by paragraph 1 of Schedule 1 to the Act;

"domiciliary support service" ("*gwasanaeth cymorth cartref*") has the meaning given by paragraph 8 of Schedule 1 to the Act;

"inspection rating" ("*gradd arolygu*") means the rating in respect of a relevant regulated service which the Welsh Ministers must give in accordance with regulation 2 of these Regulations;

"inspection report" ("*adroddiad arolygu*") means a report prepared by the Welsh Ministers after an inspection in accordance with section 36 of the Act;

"relevant regulated service" ("*gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol*") means—

(a) a care home service;

(b) a domiciliary support service;

"relevant service provider" ("*darparwr gwasanaeth perthnasol*") means a person registered by the Welsh Ministers as a provider of a relevant regulated service.

RHAN 2

Graddau arolygu

Dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddarparu gradd arolygu ar gyfer gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol

2. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cynnal arolygiad o wasanaeth rheoleiddiedig perthnasol, rhaid iddynt roi, mewn cysylltiad â'r asesiadau y cyfeirir atynt yn adran 36(2)(a) i (c) o'r Ddeddf, unrhyw radd y maent yn ystyried ei bod yn briodol.

Gofyniad ynghylch arddangos graddau arolygu

3.—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth perthnasol ddangos ar bob gwefan a gynhelir ganddo neu ar ei ran, ac sy'n ymwneud â'i wasanaeth rheoleiddiedig perthnasol, y radd arolygu ddiweddaraf—

(a) ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol, a

(b) ar gyfer pob man y darperir y gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef ac y mae'r radd yn gymwys iddo.

PART 2

Inspection ratings

Welsh Ministers' duty to provide inspection rating for relevant regulated service

2. When the Welsh Ministers carry out an inspection of a relevant regulated service, they must, in respect of the assessments referred to in section 36(2)(a) to (c) of the Act, give such rating as they consider appropriate.

Requirement as to display of inspection ratings

3.—(1) A relevant service provider must show on every website maintained by it or on its behalf, and which relates to its relevant regulated service, the most recent inspection rating—

(a) for each relevant regulated service, and

(b) for each place at, from or in relation to which the relevant regulated service is provided, and to which the rating applies.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth perthnasol sicrhau bod copi o'r wybodaeth y mae paragraff (1) yn gymwys iddi yn cael ei roi ar gael ar gais.

(3) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth perthnasol arddangos y radd arolygu ddiweddaraf yn y man y darperir y gwasanaeth ynddo neu ohono ac y mae'r radd yn gymwys iddo.

(4) Ond nid yw paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—

(a) gwasanaeth cartref gofal a ddarperir mewn man—

(i) lle y'i darperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau sydd o dan 18 oed, neu

(ii) lle y mae'n lletya pedwar neu lai o unigolion;

(b) man y darperir gwasanaeth cymorth cartref ohono nad yw'n hygyrch i aelodau o'r cyhoedd.

(5) Rhaid i radd arolygu y mae'n ofynnol ei harddangos yn unol â gofynion y rheoliad hwn—

(a) cael ei harddangos yn ddi-oed ar ôl iddi gael ei chyhoeddi mewn adroddiad arolygu;

(b) bod ar y ffurf benodedig a ddynodir gan Weinidogion Cymru;

(c) bod yn ddarllenadwy;

(d) cynnwys y dyddiad y rhoddwyd y radd arolygu;

(e) cael ei harddangos yn amlwg mewn lleoliad sy'n hygyrch—

(i) i unigolion sy'n cael y gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol;

(ii) i ymwelwyr â'r man y darperir y gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol ynddo neu ohono.

(2) A relevant service provider must ensure that a copy of the information to which paragraph (1) applies is made available upon request.

(3) A relevant service provider must display the most recent inspection rating at the place at which, or from which the service is provided and to which the rating applies.

(4) But paragraph (3) does not apply in relation to—

(a) a care home service provided at a place where—

(i) it is provided wholly or mainly to persons under the age of 18, or

(ii) it accommodates four or fewer individuals;

(b) a place from which a domiciliary support service is provided which is not accessible to members of the public.

(5) An inspection rating required to be displayed in accordance with the requirements of this regulation must—

(a) be displayed without delay after it is published in an inspection report;

(b) be in the specified form designated by the Welsh Ministers;

(c) be legible;

(d) include the date the inspection rating was given;

(e) be displayed conspicuously in a location accessible to—

(i) individuals who are in receipt of the relevant regulated service;

(ii) visitors to the place at or from which the relevant regulated service is provided.

Apelio yn erbyn graddau arolygu

4.—(1) Caiff darparwr gwasanaeth perthnasol apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn gradd arolygu a roddwyd pan fo'r amodau a nodir ym mharagraff (2) wedi eu bodloni.

Appealing against inspection ratings

4.—(1) A relevant service provider may appeal to the Welsh Ministers against an inspection rating given where the conditions set out in paragraph (2) are met.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod y darparwr gwasanaeth perthnasol, o fewn 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n cael(**1**) copi o adroddiad arolygu(**2**), wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei fod yn ceisio adolygiad o'r radd arolygu ar y seiliau a ganlyn—

(i) anghywirdeb ffeithiol;

(ii) tystiolaeth anghyflawn,

(b) bod y darparwr gwasanaeth perthnasol wedi cael canlyniad adolygiad Gweinidogion Cymru o'r radd arolygu,

(c) bod y darparwr gwasanaeth perthnasol, o fewn 5 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n cael canlyniad yr adolygiad, wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei fod yn ceisio apelio yn erbyn canlyniad yr adolygiad, a

(d) bod yr apêl yn cael ei gwneud ar yr un seiliau â'r rhai y dibynnir arnynt i geisio'r adolygiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).

(3) Pan fo apêl yn cael ei gwneud gan ddarparwr gwasanaeth perthnasol, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ystyried yr apêl a chadarnhau'r radd arolygu derfynol drwy anfon adroddiad arolygu terfynol at y darparwr gwasanaeth perthnasol;

(b) cydymffurfio â'r ddyletswydd i gyhoeddi'r adroddiad arolygu o dan adran 36(3)(a) o'r Ddeddf.

(2) The conditions are that—

(a) the relevant service provider has, within 10 working days beginning with the day on which it receives(**1**) a copy of an inspection report(**2**), notified the Welsh Ministers in writing that it is seeking a review of the inspection rating on the following grounds—

(i) factual inaccuracy;

(ii) incomplete evidence,

(b) the relevant service provider has received the outcome of the Welsh Ministers' review of the inspection rating,

(c) the relevant service provider has, within 5 working days beginning with the day on which it receives the outcome of the review, notified the Welsh Ministers in writing that it is seeking to appeal against the outcome of the review, and

(d) the appeal is made on the same grounds as those relied on to seek the review referred to in sub-paragraph (a).

(3) Where an appeal is made by a relevant service provider, the Welsh Ministers must—

(a) consider the appeal and confirm the final inspection rating by sending the relevant service provider a final inspection report;

(b) comply with the duty to publish the inspection report under section 36(3)(a) of the Act.

RHAN 3

Troseddau

5.—(1) Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth perthnasol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliad 3(1) a (3).

PART 3

Offences

5.—(1) It is an offence for a relevant service provider to fail to comply with a requirement of any of the provisions specified in paragraph (2).

(2) The provisions specified for the purposes of paragraph (1) are the provisions of regulation 3(1) and (3).

(**1**) Gweler adran 184(8) o'r Ddeddf.

(**2**) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i arolygiad gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar yr arolygiad ac anfon copi ohono at y darparwr gwasanaeth o dan adran 36(1) o'r Ddeddf.

(**1**) See section 184(8) of the Act.

(**2**) As soon as reasonably practicable after an inspection has been carried out, the Welsh Ministers must prepare a report of the inspection and send a copy of it to the service provider under section 36(1) of the Act.

RHAN 4

Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

6. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 2, yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "y Rheoliadau Graddau Arolygu" ("*the Inspection Ratings Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025;";

(b) ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"Troseddau o dan y Rheoliadau Graddau Arolygu

9ZA.—(1) Mae'r drosedd o dan y ddarpariaeth yn y Rheoliadau Graddau Arolygu a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 5A wedi ei rhagnodi'n drosedd at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 5A yn cynnwys disgrifiad o natur gyffredinol y drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer y drosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 5A.";

(c) ar ôl Atodlen 5 mewnosoder—

"Atodlen 5A Rheoliad 9ZA

Troseddau rhagnodedig - graddau arolygu

Y ddarpariaeth sy'n creu'r drosedd	*Natur gyffredinol y drosedd*	*Swm y gosb*
Rheoliad 3(1) a (3) o'r Rheoliadau Graddau Arolygu	Mynd yn groes i'r gofyniad ynghylch arddangos graddau arolygu, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol"

(**1**) O.S. 2019/887 (Cy. 159).

PART 4

Amendments to the Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019

6. The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019(**1**) are amended as follows—

(a) in regulation 2, in the appropriate position insert—

""the Inspection Ratings Regulations" ("*y Rheoliadau Graddau Arolygu*") means the Regulated Services (Inspection Ratings) (Wales) Regulations 2025;";

(b) after regulation 9 insert—

"Offences under the Inspection Ratings Regulations

9ZA.—(1) The offence under the provision of the Inspection Ratings Regulations listed in the first column of the table in Schedule 5A is prescribed as an offence for the purposes of section 52(1) of the Act.

(2) The second column of the table in Schedule 5A contains a description of the general nature of the prescribed offence.

(3) The amount of the penalty to be paid for the offence is specified in the third column of the table in Schedule 5A.";

(c) after Schedule 5, insert—

"Schedule 5A Regulation 9ZA

Prescribed offences - inspection ratings

Provision creating offence	*General nature of the offence*	*Amount of penalty*
Regulation 3(1) and (3) of the Inspection Ratings Regulations	Contravention of, or failure to comply with, requirement as to display of inspection ratings	An amount corresponding to level 4 on the standard scale"

(**1**) S.I. 2019/887 (W. 159).

Dawn Bowden

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifenydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru, un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2025

Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers

26 March 2025

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39681-2

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/389

9 780348 396812